

Gweithdrefnau absenoldeb mabwysiadu

1. Cymhwyso am Absenoldeb Mabwysiadu

- 1.1 Mae gan gyflogeion gwrywaidd a benywaidd hawl i gymryd absenoldeb mabwysiadu.
- 1.2 Ystyr "mabwysiadwr" yw'r unigolyn sydd wedi cael ei gyfateb gyda'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu. Os oes dau o bobl wedi cael eu cyfateb ar y cyd, dim ond un ohonynt gaiff ddewis bod yn fabwysiadwr at ddibenion hawliau absenoldeb mabwysiadu.
- 1.3 Mae gan gyflogai hawl i gymryd naill ai absenoldeb mabwysiadu fel mabwysiadwr y plentyn neu absenoldeb tadolaeth o dan y gweithdrefnau Tadolaeth.
- 1.4 Ym mhob achos, er mwyn cymhwyso am absenoldeb mabwysiadu, rhaid i'r cyflogai fodloni'r canlynol:
 - bod yn gyflogedig yn barhaus gyda CCAUC am o leiaf 26 wythnos yn gorffen gyda'r wythnos ei hysbysu ei fod wedi'i gyfateb gyda'r plentyn;
 - bod wedi hysbysu'r asiantaeth mabwysiadu ei fod yn cytuno y dylai'r plentyn gael ei leoli gydag ef ar y dyddiad arfaethedig (Dyddiad Lleoli); a
 - bod wedi cydymffurfio â'r gofynion hysbysu a thystiolaeth sydd yn y weithdrefn hon.
- 1.5 Os yw'r mabwysiadwr a'r unigolyn a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb rhiant am y plentyn yn gyflogeion gyda CCAUC, rhaid i un mabwysiadwr ddewis cymryd absenoldeb mabwysiadu ac efallai y bydd y cyflogai arall yn cymhwyso am absenoldeb tadolaeth.

2. Swyddogaethau a chyfrifoldebau

- 2.1 Mae cyflogeion yn gyfrifol am y canlynol:
 - hysbysu eu rheolwr llinell a'r adran AD o fewn saith diwrnod ar ôl derbyn cadarnhad o'r mabwysiadu a chael eu cyfateb gyda phlentyn.
- 2.2 Mae rheolwyr llinell yn gyfrifol am y canlynol:
 - rhoi gwybod i'w Cyfarwyddwr/Pennaeth Tîm am y mabwysiadu; a
 - cytuno i amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiadau mabwysiadu.
- 2.3 Mae'r adran AD yn gyfrifol am y canlynol:
 - cadarnhau tâl mabwysiadu a hawliadau absenoldeb; a
 - rhoi cyngor i gyflogeion a rheolwyr llinell ar weithdrefnau mabwysiadu CCAUC a pholisïau perthnasol eraill.
- 2.4 Mae'r Cyfarwyddwr/Pennaeth Tîm yn gyfrifol am y canlynol:
 - cyflwyno cynigion recriwtio i'r Bwrdd Rheoli ar gyfer cyflogai i gymryd lle'r cyflogai sy'n mynd ar absenoldeb mabwysiadu (os yw hynny'n briodol).

3. Hawliadau mabwysiadu

- 3.1 Mae'r holl gyflogeion (ac eithrio staff asiantaeth neu ar secondiad i mewn) sydd wedi cwblhau o leiaf blwyddyn barhaus o wasanaeth gyda CCAUC, erbyn diwedd yr wythnos pryd maent yn hysbysu am gael eu cyfateb gyda phlentyn, yn gymwys i wneud cais am y canlynol:
 - 26 wythnos o Absenoldeb Mabwysiadu Cyffredin (AMC) ar gyflog llawn;

Gweithdrefnau absenoldeb mabwysiadu

- 13 wythnos bellach o Absenoldeb Mabwysiadu Ychwanegol (AMY) gyda Thâl Mabwysiadu Statudol (TMS);
- hyd at 13 wythnos bellach o AMY di-dâl;
- gwyliau blynyddol ar ddiwedd yr absenoldeb mabwysiadu ar gais;
- cronni unrhyw wyliau banc a fu yn ystod yr absenoldeb mabwysiadu;
- seibiant gyrfaol (di-dâl) am gyfnod o hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhau'r 52 wythnos o absenoldeb mabwysiadu (yn amodol ar y meini prawf yn y gweithdrefnau Seibiant Gyrfaol).

3.2 Mae'r holl gyflogeion (ac eithrio staff asiantaeth neu ar secondiad i mewn) sydd wedi cwblhau llai na blwyddyn ond mwy na chwe mis o wasanaeth parhaus, erbyn diwedd yr wythnos pryd maent yn hysbysu am gael eu cyfateb gyda phlentyn, yn gymwys i wneud cais am y canlynol:

- 39 wythnos o Absenoldeb Mabwysiadu Cyffredin (AMC) gyda Thâl Mabwysiadu Statudol (TMS);
- hyd at 13 wythnos bellach o absenoldeb mabwysiadu di-dâl;
- gwyliau blynyddol ar ddiwedd yr absenoldeb mabwysiadu ar gais;
- cronni unrhyw wyliau banc a fu yn ystod yr absenoldeb mabwysiadu.

3.3 Mae gan yr holl gyflogeion (ac eithrio staff asiantaeth neu ar secondiad i mewn) hawl diwrnod un i wneud cais am y canlynol:

- 52 wythnos o Absenoldeb Mabwysiadu Statudol heb dâl;
- gwyliau blynyddol ar ddiwedd yr absenoldeb mabwysiadu ar gais;
- cronni unrhyw wyliau banc a fu yn ystod yr absenoldeb mabwysiadu.

3.4 Bydd yr holl daliadau a wneir yn cael eu talu ar y dyddiad talu arferol a thynnir treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn ohonynt yn yr un ffordd.

3.5 Mae gan gyflogeion hawl i absenoldeb gyda thâl i fynychu hyd at bump o apwyntiadau mabwysiadu ar ôl cael eu cyfateb gyda phlentyn. Mae hyn ar wahân i'r hawliadau absenoldeb mabwysiadu.

4. Buddion Cytundebol

4.1 Mae'r contract cyflogaeth yn parhau yn ystod y cyfnod o absenoldeb mabwysiadu gyda thâl a di-dâl. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cyflogeion yn parhau i elwa o fuddion cytundebol eu telerau a'u hamodau cyflogaeth presennol ar wahân i gyfraniadau pensiwn a thâl.

4.2 Gweler Atodiad A am ddadansoddiad o'r buddion.

5. Hysbysu am fabwysiadu

5.1 Mae'r AMC yn dechrau ar y dyddiad mae'r cyflogai wedi hysbysu CCAUC.

5.2 Rhaid i gyflogai sy'n dymuno cymryd AMC hysbysu ei reolwr llinell a'r adran AD o fewn saith diwrnod i dderbyn cadarnhad o'r mabwysiadu a chael ei gyfateb gyda phlentyn. Rhaid i'r hysbysu fod yn ysgrifenedig a chynnwys y canlynol:

- dyddiad y lleoliad;
- ei fwriad i gymryd Absenoldeb Mabwysiadu;

Gweithdrefnau absenoldeb mabwysiadu

- y dyddiad dechrau mae'r cyflogai wedi'i ddewis ar gyfer dechrau ar yr absenoldeb a'r bwriad i ddychwelyd i'r gwaith;
- tystiolaeth o hawl (tystysgrif cyfateb) a roddwyd gan yr asiantaeth mabwysiadu sy'n cadarnhau dyddiad y lleoli a'r dyddiad pryd cafodd y plentyn ei gyfateb gyda'r mabwysiadwr.

- 5.3 Rhaid i ddyddiad dechrau'r AMC fod o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad lleoli.
- 5.4 Mae gan y cyflogai hawl i amrywio ei hysbysiad i CCAUC ynghylch pryd mae'r AMC yn dechrau, ond rhaid iddo fod o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad lleoli. Rhaid i'r amrywiad gael ei gyflwyno yn ysgrifenedig, o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad y dyddiad dechrau gwreiddiol ar gyfer yr AMC.
- 5.5 Os oes mwy nag un plentyn yn cael ei lleoli ar gyfer mabwysiadu fel rhan o'r un lleoliad, dim ond hawl i un cyfnod o AMC fydd gan y mabwysiadwr.
- 5.6 Rhaid i'r adran AD gadarnhau o fewn 28 diwrnod, yn ysgrifenedig, ddyddiadau dechrau a gorffen y cyfnod mabwysiadu, gan gynnwys unrhyw hawliadau am dâl. Gwneir trefniadau i'r cyflogai gyfarfod yr adran AD i drafod y canlynol:
- a) ei absenoldeb mabwysiadu a'i hawliau o ran tâl;
 - b) gofynion y cyfnod hysbysu yn ystod absenoldeb mabwysiadu;
 - c) yr hawl i ddychwelyd i'r gwaith ac unrhyw gyfleoedd posib am waith rhan amser;
 - d) cronni gwyliau blynyddol a hawl i Wyliau Banc yn ystod absenoldeb mabwysiadu;
 - e) gofyniad i ad-dalu unrhyw dâl mabwysiadu galwedigaethol os na fydd yn dychwelyd i'r gwaith.

6. Dychwelyd i'r gwaith

- 6.1 Rhaid i gyflogai sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith yn gynharach na'r dyddiad y cytunwyd arno roi isafswm o wyth wythnos o rybudd ysgrifenedig yn nodi'r dyddiad dychwelyd i'r gwaith newydd.
- 6.2 Os na roddir digon o rybudd, mae gan CCAUC hawl i ohirio'r dychwelyd i'r gwaith am 28 diwrnod neu tan ddiwedd y cyfnod absenoldeb mabwysiadu y cytunwyd arno (pa un bynnag yw'r cynharaf).
- 6.3 Os bydd y cyflogai'n dychwelyd i'r gwaith cyn y dyddiad dychwelyd i'r gwaith y cytunwyd arno, neu os bydd CCAUC wedi gohirio'r dyddiad dychwelyd i'r gwaith, bydd y cyflogai'n torri ei contract ac ni fydd yn cael tâl tan y dyddiad dychwelyd cywir.
- 6.4 Bydd cyflogai sy'n ymarfer ei hawl i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl 26 wythnos o absenoldeb mabwysiadu'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ag o'r blaen, ar yr un telerau ac amodau cyflogaeth yn unol â'r rheoliadau statudol.
- 6.5 Bydd cyflogai sy'n ymarfer ei hawl i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl 52 wythnos o absenoldeb mabwysiadu'n cael ei gyflogi yn yr un swydd ag o'r blaen, neu os nad yw hynny'n bosib, caiff ei gyflogi mewn swydd arall addas ar yr un telerau ac amodau cyflogaeth â'r rhai oedd yn berthnasol cyn yr absenoldeb mabwysiadu.

Gweithdrefnau absenoldeb mabwysiadu

- 6.6 Os yw'r cyflogai'n dymuno dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mabwysiadu yn rhan amser, rhaid iddo hysbysu'r adran AD a'r rheolwr llinell o'i fwriadau, a bydd CCAUC yn ceisio darparu ar gyfer y cais, yn amodol ar anghenion y sefydliad.
- 6.7 O leiaf bythefnos cyn y dyddiad pryd mae'r cyflogai i fod i dychwelyd i'r gwaith, caiff wahoddiad i fynychu cyfarfod anffurfiol gyda'i reolwr llinell a'r adran AD i drafod y canlynol:
- diweddariadau ar ddatblygiadau yn y gwaith;
 - ystyried a oes unrhyw anghenion hyfforddi wedi codi;
 - rhoi cyfle i drafod trefniadau gwaith hyblyg, patrymau gweithio hyblyg neu oriau rhan amser; a
 - unrhyw newidiadau angenrheidiol i waith y cyflogai.

7. Terfynu absenoldeb a thâl mabwysiadu yn gynnar

- 7.1 Os daw cyfnod yr absenoldeb mabwysiadu i ben cyn ei amser am nad yw'r plentyn wedi'i leoli mwyach, daw'r cyfnod o absenoldeb mabwysiadu ac unrhyw dâl i ben wyth wythnos ar ôl i hyn ddigwydd.

8. Absenoldeb salwch

- 8.1 Yn ystod absenoldeb mabwysiadu, ni all cyflogai fod yn absennol oherwydd salwch. Mae rheolau absenoldeb salwch arferol yn berthnasol os yw cyflogai'n sâl ar ei ddyddiad dychwelyd i'r gwaith.

9. Cadw mewn cysylltiad

- 9.1 Gall y rheolwr llinell neu'r adran AD gadw mewn cysylltiad â'r cyflogai tra mae ar absenoldeb mabwysiadu, ar yr amod nad yw math a lefel y cyswllt yn afresymol. Gallai hyn ddigwydd i drafod materion amrywiol e.e. cynlluniau dychwelyd i'r gwaith neu i roi gwybod iddo am newidiadau pwysig yn CCAUC. Dylid rhoi gwybod i'r cyflogai am unrhyw gyfleoedd priodol am ddyrchafiad neu swyddi gwag sy'n codi yn ystod yr absenoldeb mabwysiadu.
- 9.2 Caiff y cyflogai weithio neu ymgymryd â hyfforddiant am hyd at 10 diwrnod o dan ei gontract cyflogaeth, ar yr amod bod hyn wedi'i gytuno rhwng y ddau barti, a bod cytundeb wedi'i sicrhau ynghylch pa waith/hyfforddiant sydd i gael ei wneud heb gollu ei hawl i dâl mabwysiadu.

10. Ad-dalu tâl mabwysiadu

- 10.1 Nid oes angen ad-dalu'r tâl mabwysiadu os bydd y cyflogai'n dychwelyd i'r gwaith ac yn cwblhau mis o wasanaeth parhaus ar ôl i'r absenoldeb mabwysiadu ddod i ben.
- 10.2 Os bydd y cyflogai'n gadael cyn cwblhau mis o wasanaeth parhaus, rhaid ad-dalu'r tâl mabwysiadu galwedigaethol llai'r tâl mabwysiadu statudol.

11. Cofnodion

- 11.1 Bydd yr adran AD yn gyfrifol am gadw cofnodion perthnasol i absenoldeb mabwysiadu a gymerir gan gyflogaion.

Gweithdrefnau absenoldeb mabwysiadu

12. Polisiâu a gweithdrefnau eraill cysylltiedig

12.1 Gweler y canlynol am ragor o fanylion i gefnogi'r gweithdrefnau Mabwysiadu:

- Gweithdrefnau Tadolaeth
- Gweithdrefnau Rhieni
- Gweithdrefnau Absenoldeb Rhiant a Rennir
- Gweithdrefnau Absenoldeb Arbennig
- Gweithdrefnau Seibiant Gyrfaol

13. Rhagor o wybodaeth

13.1 Bydd yr adran AD yn darparu rhagor o wybodaeth sydd heb ei chynnwys yn y polisi hwn efallai.

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad
1.0		Polisi wedi'i fabwysiadu
1.1	02/04/07	Diweddarwyd yn unol â deddfwriaeth mis Ebrill 2007
2.0	Chwefror 2008	Diweddariad polisi Canllaw steil, OD, EIA a Rheolaeth IS
3.0	Medi 08	Diweddarwyd yn unol â'r cyfeiriad deddfwriaethol at reolau mamolaeth
4.0	Mawrth 09	Diweddarwyd yn unol â'r cyfeiriad deddfwriaethol at reolau mamolaeth
4.1	Awst 16	Diweddarwyd fel rhan o'r prosiect adolygu polisiâu
4.2	Ionawr 17	Cymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli
4.3	Ionawr 17	Cymeradwyaeth y Cyngor Gwaith

Gweithdrefnau absenoldeb mabwysiadu

Taliadau Mabwysiadu a Gwybodaeth Hanfodol

Atodiad A

Rhaid darllen y crynodeb hwn ar y cyd â'r weithdrefn Fabwysiadu lawn.

Amserlen	Gwasanaeth parhaus o flwyddyn neu fwy		Gwasanaeth parhaus o lai na blwyddyn ond mwy na 26 wythnos		Gwasanaeth parhaus o lai na 26 wythnos	
	Tâl	Buddion	Tâl	Buddion	Tâl	Buddion
Absenoldeb Mabwysiadu Cyffredin (AMC) 26 wythnos	Taliad cyflog sylfaenol	<ul style="list-style-type: none"> Pensiwn Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc 	Tâl Mabwysiadu Statudol	<ul style="list-style-type: none"> Pensiwn Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc 	Di-dâl	<ul style="list-style-type: none"> Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc
Absenoldeb Mabwysiadu Ychwanegol (AMY) Wythnos 27 i 39 (13 wythnos bellach)	Tâl Mabwysiadu Statudol	<ul style="list-style-type: none"> Pensiwn Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc 	Tâl Mabwysiadu Statudol	<ul style="list-style-type: none"> Pensiwn Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc 	Di-dâl	<ul style="list-style-type: none"> Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc
Wythnos 40 i 52 (13 wythnos bellach)	Di-dâl	<ul style="list-style-type: none"> Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc 	Di-dâl	<ul style="list-style-type: none"> Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc 	Di-dâl	<ul style="list-style-type: none"> Gwyliau blynyddol yn unol â'r gyfradd gytundebol Cronni Gwyliau Banc

Pwyntiau i'w nodi:

- Angen tystysgrif cyfateb saith diwrnod ar ôl derbyn cadarnhad o'r mabwysiadu a chyfateb gyda phlentyn
- Bwriad o ddyddiad dechrau'r absenoldeb mabwysiadu saith diwrnod ar ôl derbyn cadarnhad o'r mabwysiadu a chyfateb gyda phlentyn
- Gellir cymryd gwyliau blynyddol ar ddiwedd cyfnod yr AMC neu'r AMY ar gais

Gweithdrefnau absenoldeb mabwysiadu